| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 90 – Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** |
| | **Telyn, Tudur Dylan Jones** |

Yn yr hen oes fodern hon,
dydd y newydd ganeuon,
dod â'r dộn yn drydanol
wna'r electrig rigmarôl.
Ond er gwell, mae ambell un
Yn dal i ganu'r delyn.

Ac os na chlywi 'run gair
o awen yng nghyniwair
yr alaw, gwranda'r eilwaith,
ac fe glywi di dy iaith
yn ddirgel yn y delyn,
a'r tannau'n eiriau bob un.

Â dwy law'n creu'i halawon,
dawn dweud ydyw nodau hon,
ac er gwell, mae ambell un
yn dal i ganu'r delyn,
a rhai o hyd yn parhau
i diwnio rhes o dannau.